**Cyngor Cymuned Glantwymyn**

**Nos Iau, yr 28ain o Dachwedd 2019**

**19:84:1: Presennol:** Cynghorwyr - Siôn Ifans (Cadeirydd), Paul Hughes, Aled Griffiths, Gwyn Jones, Huw Williams, William Owen, Gwenfair Davies, Gareth Jones, Iwan Jones, Geraint Wigley, Deryck Lewis, Gwen Lloyd

**19:85: Ymddiheuriadau:** Gareth Owen, Dafydd Evans,

**19:86: Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Cyfarfod CC Glantwymyn Hydref 2019** Cynigiodd Geraint Wigley fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan Paul Hughes.

**19:87: Datganiadau o ddiddordeb** – Gareth Jones a Paul Hughes – Neuadd Glantwymyn

**19:88: Materion yn codi o'r cofnodion**

**19:88:1**: Blychau ffôn (19:69:1) Derbyniwyd cytundeb prynu bocs ffôn Cemaes am bunt. Nodwyd byddai'r Cyngor yn gyfrifol am archwilio diogelwch trydanol y bocs, sicrhau bod y paent yn ddiogel. Penderfynwyd cysylltu â BT i nodi mai Cadw a fyddai'n berthnasol yng Nghymru yn hytrach na 'English Heritage.' Cysylltir eto â BT i sicrhau dilysrwydd prynwr Comins Coch. Cysylltir â BT i holi hanes bocs ffôn Talywern. Bydd Iwan Jones yn anfon manylion y rhif ffôn i'r clerc.

**19:89: Gohebiaeth**

**19:89:1:** Cafwyd cydnabyddiaeth awtomatig i lythyr y Cyngor i GIG yn nodi problemau gyda'r ddarpariaeth feddygol newydd ym Machynlleth ond ni chafwyd ymateb pellach.

**19:89:2:** Llwybr Glyndŵr ger Brynŵg. Cafwyd eglurhad a manylion pellach am symud rhannau o'r llwybr.

**19:90: Praesept 2020-2021**

Nodwyd mai 12,500 yw'r cyfanswm cyfredol. Cynigiodd Aled Griffiths y dylid trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf gan ohirio pennu'r praesept yn derfynol tan hynny, ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Davies.

**19:91**: **Cynllunio** Rhydaderyn Cemaes – tŷ i weithiwr amaethyddol. Cyfeirnod: 19/1826/OUT

Cynigiwyd y dylid derbyn y cais gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Gareth Jones.

Ni chafwyd trafodaeth am garej Tŷ Capel Comins Coch Cyfeirnod:19/1021/HH gan fod hynny wedi cael ei dderbyn eisoes.

**19:92: Materion Ariannol**

**19:92:1:** Derbyniwyd cais gan Ganolfan Glantwymyn am £1,500 ar gyfer Medi 2019 - Awst 2020. Cynigiwyd y dylid rhoi'r rhodd gan Gwenfair Davies ac fe'i heiliwyd gan Huw Williams.

**19:92:2:** Cafwyd anfonebau gan Rhys Bleddyn (£4404.00) a Glyn Williams (£240.00) am waith adfer cofeb rhyfel Cemaes a'r colofnau cysylltiedig. Canmolwyd y gwaith yn fawr. Cynigiwyd talu gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Geraint Wigley. Cydnabuwyd nawdd Cymdeithas Cofebion Rhyfel Powys.

**19:92:3:** Bocs Ffôn Cemaes - Penderfynwyd y dylid ei brynu am £1.00.

**19:92:4:** Llofnodwyr a Bancio ar-lein. Mae trefniadau i sefydlu'r prosesau hyn ar y gweill.

**19:93: Adroddiadau'r Cynghorwyr:**

**19:93:1 Adroddiad y Cynrychiolwyr Fforwm y Cleifion gan Gaeth Jones a Gwenfair Davies**

Cafwyd y wybodaeth ganlynol yng nghyfarfod diweddaraf Fforwm y Cleifion a fynychwyd gan Gwenfair Davies a Gareth Jones.

Gwerthfawrogwyd presenoldeb Dr Shaw yng nghyfarfod y fforwm a rhoddodd ddiweddariad ynglŷn â nifer y staff, eu swyddogaethau ac ateb cwestiynau a godwyd gan aelodau'r fforwm.

Honnwyd mai bai'r cwmni ffôn oedd bod galwadau cleifion yn cael eu torri i ffwrdd ar ôl aros yn hir am ateb. Mae deg o linellau ffôn ar gael ond nid oes digon o staff ar eu cyfer. Mae cynlluniau ar y gweill i gynyddu'r nifer yna. Nodwyd gan CCG bod llawer o weithwyr rhan amser gan olygu nad oedd cysondeb na pharhad.

Nododd Jason Crowl, Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Cymunedol Bwrdd Iechyd Addysgol Powys fod gwaith adeiladu Ysbyty'r Frest yn cael ei dendro eto ond gall yr holl broses i ddatblygu'r adeilad newydd gymryd blynyddoedd i'w gwblhau.

Trafodwyd gan CCG yr angen i gael gwell wybodaeth i'r cyhoedd am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt gan gynnwys y system triawd, a chyfleoedd mynegi barn/pryderon. Awgrymwyd y gellid datrys y problemau hyn drwy osod posteri er gwybodaeth. Credir y byddai derbyn barn y bobl yn annog y Gwasanaeth Iechyd i fod yn fwy agored i awgrymiadau a chydweithio i ddatrys problemau.

Mynegwyd siom gan CCG ynghylch ymateb Bwrdd Iechyd Addysgol Powys i lythyr y Cyngor a anfonwyd ar ddechrau Hydref 2019 mynegodd y llythyr pryder pobl leol am ddiffyg parcio digonol, cais unigolyn i weld meddyg yn cael ei wrthod, cleifion wedi cael eu gwrthod yn y feddygfa, gyrru adref ac wedyn gorfod mynd eto i'r feddygfa a phroblemau wrth ffonio i gael apwyntiadau a'r amser aros a'r system aros.

Penderfynwyd y dylid mynd â'r mater ymhellach ac ysgrifennu at aelodau cynulliad rhanbarthol a sirol i fynegi pryderon y Cyngor am y diffyg trefn o ran y ddarpariaeth feddygol, a hynny yn dilyn parodrwydd y Cyngor i gefnogi'r datblygiadau newydd o ganoli'r gwasanaethau ar un safle. Ni chyflawnwyd yr addewidion ac yn fwy na hynny gwelir dirywiad cynyddol oran y ddarpariaeth yn lle gwelliannau.

Pryderon newydd a godwyd yw:

- Mam ifanc yn aros dros awr a hanner am apwyntiad, gan orfod gadael y feddygfa cyn gweld meddyg i godi ei phlant o'r ysgol
- Prinder doctoriaid – doctor y feddygfa'n gweithio mewn ardal arall heb fod darpariaeth ddigonol i gleifion yn ei bractis ei hun.
- Diffyg rheolaeth effeithiol o ran gweinyddu'r feddygfa a'r fferyllfa. Mae'r dderbynfa'n bwynt cyswllt cyntaf i gleifion. Mae'r holl broses yn cynyddu pwysau ar bobl sâl wrth orfod aros yn hir ar y ffôn i gael apwyntiad/ ffonio droeon/ gorfod ffonio ben bore i sicrhau apwyntiad yn y lle cyntaf ac wedyn aros yn hir yn y feddygfa. Mae hyn oll yn denu beirniadaeth gan y cyhoedd yn syth, gan nad oes dim golwg o ystyried gwasanaethau cleifion.
- Diffyg gwybodaeth ddigonol i'r cyhoedd e.e. y system driawd a'r system gwyno/rhoi adborth.
- Amwysedd o ran pwy fydd yn cynnal apwyntiadau. Unigolion yn ffonio am apwyntiad gan feddwl gweld doctor a darganfod wedyn mai aelod o staff cynorthwyol nad yw'n brofiadol nac yn gymwys ar gyfer y broblem dan sylw, a'r unigolion heb gael eu hysbysu o hynny.
- Nid yw'r gwasanaeth siarad â doctor ar y ffôn yn ystyried anghenion cleifion lleol o gwbl. O Gernyw a de Cymru mae'r doctoriaid hyn yn dod, a does dim cynnig i gleifion drafod eu problemau yn Gymraeg. Mae nifer helaeth o gleifion yr ardal hon â'r Gymraeg yn famiaith iddynt. Mae llawer ohonynt yn oedrannus ac wedi arfer mynegi eu hunain yn eu mamiaith gan wneud hynny'n effeithiol ac yn hyderus ond sy'n cael trafferth i fynegi eu pryderon yn Saesneg. Mae diffyg trafod yn eich mamiaith yn gallu achosi straen meddyliol/emosiynol ychwanegol, yn ogystal â chymhlethdodau meddygol os nad yw'r wybodaeth gywir ar gael. Nodwyd bod yr holl bwyntiau uchod yn ddiffygion o ran gofynion Safonau'r Gymraeg ac yn groes i'r hyn a welir ar y gwefannau.

- Gwefan Gwasanaeth Iechyd Powys http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/1144/tudalen/99090

  Gwefan Comisiynydd y Gymraeg.

  http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/English/Pages/Home.aspx

**19:93:2: Adroddiad Llywodraethwyr Ysgol gan Aled Griffiths**

Cynhelir cyngerdd i godi arian i'r Ffederasiwn ddechrau Rhagfyr yn y Tabernacl Machynlleth gydag Elin Fflur, Aled Pentre' Mawr a'r plant ysgol.

**19:93:3: Adroddiad Canolfan Gymuned Glantwymyn gan Paul Hughes**

Cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus iawn ar yr 8fed o Dachwedd gan dri Gog a Hwntw i godi arian ar gyfer y gwelliannau i'r Ganolfan.

**19:94: Unrhyw Fater Arall**

**19:94:1: Cod Ymddygiad** Derbyniwyd fersiwn diweddaraf y Cod Ymddygiad gan y cynghorwyr nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf.

**19:94:2: Materion priffyrdd**

Nodwyd nad oedd unrhyw weithredu wedi digwydd yn dilyn adrodd problemau priffyrdd mis Hydref a nifer o broblemau a gafodd eu hadrodd fisoedd yn ôl a gofynnwyd am gyfarfod gyda chynrychiolydd o Gyngor Sir Powys. Bydd y Cynghorydd Deryck Lewis yn ei dywys o gwmpas y lleoliadau sy'n achosi pryder ac yn cwrdd â chynghorwyr eraill/trigolion lleol i esbonio'n fanwl a dangos y problemau yn y gobaith y byddant yn cael eu datrys.

Problemau sy'n bodoli ers tro:

Angen torri coed ger pont Cwmlline ar yr A470. Mae coed yng ngerddi Maesafon a Dolybont yn hongian dros y ffordd gan amharu ar allu gyrwyr a cherddwyr i weld y ffordd yn glir, yn enwedig gan fod y ffordd yn disgyn mewn pant cyfagos gan beryglu bywydau

Angen glanhau mwswgl a dail o'r palmant o Lannerch Dyfi hyd at gylchfan Glantwymyn. Mae nifer o drigolion lleol eisoes wedi syrthio a'u hanafu. Mae pryderon yn cynyddu yn sgil tywydd garw gaeafol. Nodwyd bod nifer fawr o bobl oedrannus a dynes feichiog yn defnyddio'r palmant yn gyson. Mynegwyd siom nad oedd y palmant wedi cael ei lanhau gan ddilyn cais brys cynghorwr ac addewid gan Gyngor Sir Powys y byddai'n cael ei wneud. Cymaint oedd pryder y cynghorwyr iddynt gynnig trefnu/ cynnal y gwaith eu hunain er lles y cyhoedd. Penderfynwyd rhoi cynnig arall i Gyngor Sir Powys gwblhau'r gwaith o fewn wythnos yn dilyn hysbysiad cyn gweithredu pellach gan gynnwys hysbysu'r 'Cambrian News'.

Angen golau gwell Top y Neuadd, Glantwymyn er lles y trigolion lleol a defnyddwyr neuadd sy'n parcio yno. Diffoddwyd dwy lamp yn barhaol – un o ganlyniad i doriadau Cyngor Sir Powys ac un adeg gosodwyd grid. Gofynnir am gael y ddwy lamp hyn yn weithredol eto.

Angen marcio'r ffordd wrth droi am Ysgol Glantwymyn o'r briffordd yn ogystal â gosod arwydd ildio er osgoi gwrthdrawiadau cerbydau a diogelu pobl ar droed. Tynnwyd sylw at ddefnyddwyr niferus y man hwnnw gan gynnwys defnyddwyr Canolfan Glantwymyn, plant ysgol a'r holl gerbydau cysylltiedig.

Dŵr yn cronni o gwmpas gratin sy wedi suddo ger Rhosawel yng Nghwmlline

Angen torri sietyn wrth gyrraedd Abercegir o gyfeiriad Machynlleth - perygl - amharu ar allu gyrwyr a cherddwyr i weld ar gornel cas

Dŵr yn cronni mewn grid yn Aberffrydlan

Drewdod yn codi o ysbwriel yng ngwaelod y cwm ar ffordd Cwm Ffrydlan

Problemau sy'n cael eu hadrodd o'r newydd eleni

Gwteri ochr y ffyrdd – angen sylw i osgoi difrod i gerbydau yn enwedig ar y ffordd gefn o Ffridd Gate i Bantberthog.

Angen ysgubo holl ffyrdd yr ardal gan gynnwys ffyrdd trwy bentrefi'n yn ogystal â ffyrdd cefn gwlad. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf - mae ffyrdd ger Darowen er enghraifft heb gael eu glanhau ers tair blynedd gan achosi i ddail luwchio wrth i gerbydau basio gan beryglu defnyddwyr ffyrdd.

Angen trwsio rheiliau pren ar Bont Ifan, Ceinws

Angen rhagor o halen mewn tybiau ac ar ochr y ffordd – angen gosod yr halen mewn lleoliadau call – ar y rhiwiau yn ogystal â mannau gwastad. Cysylltir â Phowys am y mater a'i nodi'n flaenoriaeth.

**19:94:3: Adroddiad Bioamrywiaeth** – cyflwynir yr adroddiad yn amserol ar ran y Cyngor.

Caewyd y cyfarfod am 8.55yh.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau, y 19eg o Ragfyr am 7.30yh**